



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Polisi Achredu a Chymhwyster Addysgu a Dysgu

Adol.	Dyddiad	Pwrpas cyhoeddi/Disgrifiad o'r newid		Dyddiad adolygu
1.	9/3/17	Adolygiad o effaith y polisi:		Ebrill 2018
Swyddog Polisi		Uwch Swyddog Cyfrifol	Cymeradwywyd gan	Dyddiad
Cyfarwyddwr AD		Dirprwy Gyfarwyddwr AD, Datblygu	Grŵp Tasg AD	Y polisi'n effeithiol o 1 Awst 2017

Polisi Achredu a Chymhwyster Addysgu a Dysgu

1 Rhagarweiniad a Chefnidir

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwmo i addysgu rhagorol ac amgylchedd sy'n cydnabod ac yn cefnogi datblygiad i athrawon proffesiynol trwy gydol eu gyrfa sy'n gysylltiedig ag achredu athrawon a llwybrau addysgu hyd at gadair Athro. Cefnogir Polisi Achredu a Chymhwyster Addysgu a Dysgu Prifysgol Bangor gan Fframwaith Datblygiad Proffesiynol Parhaus Bangor, sy'n rhoi achrediad Cymrodoriaeth yr AAU. Mae Cymrodoriaeth yr AAU yn achrediad addysgu cydnabyddedig ar draws y sector, ac mae'n llwybr pwysig i gydnabyddiaeth i staff profiadol heb unrhyw gymhwyster addysgu blaenorol, ac i staff sy'n dymuno ennill categorïau uwch o achrediad wrth i'w gyrfa addysgu ddatblygu.

Sylwer nad oes raid i staff sydd eisoes yn meddu ar gymhwyster PGCert y DU neu gymhwyster cyfwerth rhyngwladol ymgymryd â'r llwybrau cymwysterau/achrediau canlynol. Yn achos cymwysterau rhyngwladol, rhaid i'r ysgol a'r Adran AD gytuno arnynt.

2 Amlinelliad o Gymwysterau Addysgu a Dysgu ac Achrediad DPP

Pwrpas y polisi yw cefnogi, datblygu a chydabod addysgu trwy ddarparu achrediad a gydnabyddir ledled y DU yn erbyn Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU (UKPSF) ar gyfer yr holl staff sy'n addysgu a/neu'n cefnogi dysgu ym Mhrifysgol Bangor a Phrifysgol Aberystwyth. Mae'n cydnabod yr UKPSF fel cyfrwng pwysig i wella profiad myfyrwyr o ddysgu ac addysgu, sy'n gysylltiedig â llwybr addysgu i ddyrchafiad.

Caiff Prifysgol Bangor ei achredu gan yr Academi Addysg Uwch (AAU), ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth - fel rhan o Gynghrair Strategol Aber-Bangor - i ddyfarnu Cymrodoriaethau AAU yn fewnol trwy'r cynllun sefydliadol ar y cyd i gydnabod a gwobrwyo DPP. Mae Fframwaith DPP Aberystwyth-Bangor (Addysgu a Dysgu) yn rhan hanfodol o ymrwymiad cydradd y ddau sefydliad i brofiad myfyrwyr ac i ddatblygiad proffesiynol academiaidd.

a) Llwybr Achredu Addysgu'r AAU

Gall staff profiadol sy'n ymwneud ag addysgu neu gefnogi dysgu wneud cais am unrhyw rai o'r pedwar categori o gymrodoriaeth trwy gyflwyno cais i'r cynllun cydnabod DPP a drefnir gan CELT. Mae'r cynllun cydnabod yn seiliedig ar Fframwaith Safonau Proffesiynol y Deyrnas Unedig (UKPSF) y mae pedwar categori'r AAU o gymrodoriaeth yn cyfateb iddynt. Mae'r AAU wedi cymeradwyo bwriad prifysgolion Aberystwyth a Bangor i ddyfarnu cymrodoriaethau AAU yn y cyfan o'r pedwar categori: Cymrawd Cyswllt, Cymrawd, Uwch Gymrawd a Phrif Gymrawd.

Mae CELT yn cefnogi staff sydd eisieu gwneud cais am Gymrodoriaeth yr AAU trwy gynnal sesiynau cynefino canolog pob mis, cynnal gweithdai ysgrifennu pob tymor, darparu gwasanaeth cyngor galw-i-mewn a rhaglen gweithdai DPP CELT.

Rhoddir ymgeiswyr sy'n cofrestru ar y cynllun, trwy fynychu sesiwn gynefino ganolog, mewn cysylltiad ag aelodau staff eraill sydd wedi ennill cymrodoriaeth, ac sy'n gallu darparu cyngor. Rhoddir pecyn cynefino sy'n cynnwys yr holl ddeunyddiau perthnasol i bob aelod staff sy'n cofrestru.

Mae adolygwyr cymheiriaid ar gyfer y ceisiadau AAU yn gydweithwyr sydd wedi ennill cymrodoriaeth eu hunain ac sydd wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant a ddarperir i adolygwyr gan CELT. Mae meddu ar gymrodoriaeth yr AAU yn aml yn amod i wneud cais am wobrau addysgu a

dysgu allanol a gwobrau cydnabyddiaeth megis y Cynllun Cymrodoriaethau Addysgu Cenedlaethol (NTFS) ac i fod yn gymwys am brojectau ymchwil addysgeg a ariennir.

Ceir hefyd lwybr unigol i gael achrediad trwy'r Cynllun DPP sy'n galluogi staff i wneud ceisiadau uniongyrchol am gymrodoriaethau i'r AAU. Ond oherwydd y gost o wneud ceisiadau allanol, ni chânt eu cefnogi gan y brifysgol.

b) **Llwybr Achredu Cymhwyster y PGCertHE**

Y PGCertHE yw llwybr rhaglen y cynllun DPP ac mae'n orfodol i ddarlithwyr sy'n newydd i addysgu ym Mangor ac sydd â llai na 3 blynedd o brofiad addysgu sylweddol. Mae'n rhoi statws Cymrawd Cyswllt yr AAU ar ddiwedd cam 1, a Chymrawd yr AAU ar ôl cwblhau cam 1 a cham 2.

Nod y PGCertHE yw darparu rhaglen fwy strwythuredig i gefnogi unrhyw gydweithwyr y byddai'n well ganddynt y llwybr hwn, neu sy'n newydd i addysgu, wrth ddatblygu sgiliau ymarferol a gwybodaeth ddamcaniaethol i fod yn ddarlithydd addysg uwch effeithiol. Ceir pwyslais ar hyrwyddo dulliau blaengar o addysgu a dysgu, a helpu cydweithwyr i ddatblygu'n ymarferwyr adfyfyrion.

Er nad yw'n orfodol i bob myfyriwr ymchwil ôl-radd sy'n addysgu/cefnogi dysgu i gael cymhwyster addysgu, fe'i hargymhellir. Mae'n ofynnol i gynorthwyrwyr dysgu graddedig sydd â dyletswyddau dan gontract, gynnal a chwblhau hyfforddiant achrededig a ddarperir gan eu hysgolion neu drwy'r rhaglen DPP ganolog. Argymhellir cam 1 PGCertHE fel rheol, yn hytrach na'r llwybr DPP, oherwydd ei fod yn darparu lefel uwch o gymorth strwythuredig, fel y nodwyd uchod.

3 Cefnogaeth Colegau/Ysgolion i Staff sy'n Ymgymryd â'r PGCertHE ac Achrediad yr AAU

Caiff pob aelod staff sy'n ymgymryd â'r llwybrau uchod eu cefnogi gan eu colegau a'u hysgolion i gwblhau'r cymhwyster/achrediad. Er enghraifft, bydd cydlynwyr y rhaglen achredu yn gweithio, fel y bo'n briodol, gyda phenaethiaid ysgolion a/neu gyfarwyddwyr addysgu a dysgu mewn ysgolion a cholegau i ddod o hyd i fentor addas, a/neu i wneud addasiadau rhesymol i lwyth gwaith lle bo hynny'n bosib.

Mae cefnogaeth yn arbennig o berthnasol i staff sy'n gorfod cwblhau'r achrediad PGCertHE/AAU fel amod o'u cyfnod prawf, yn unol â'u contract. Mae'r ysgolion yn adrodd am ddilyniant o ran cyflawni'r cymhwyster/achrediad gofynnol ac mae AD yn ei fonitro trwy adroddiadau cyfnod prawf. Mae'r broses hon yn sicrhau y caiff staff eu cefnogi a'u monitro er mwyn sicrhau eu bod yn cwblhau'r cymhwyster/achrediad o fewn yr amserlen ofynnol.

Disgwylir y bydd staff nad ydynt yn cwblhau'r cymhwyster/achrediad o fewn y cyfnod prawf yn cyfarfod â phennaeth yr ysgol i gytuno ar gynllun datblygu er mwyn sicrhau eu bod yn cwblhau gan na chaiff staff eu cadarnhau yn eu swyddi nes bod y cymhwyster/achrediad wedi ei ddyfarnu. Yn y sefyllfa hon, bydd CELT ar gael i roi cyngor os oes angen.

4 Cymwysterau a Gofynion Achredu ar gyfer y Cyfnod Prawf, Dilyniant a Dyrchafu.

Amlinellir y cymwysterau dysgu perthnasol a'r achrediad sy'n ofynnol gan y brifysgol isod (gweler hefyd Atodiad 1). Mae'n bwysig nodi bod y brifysgol yn cydnabod y gall cyfnodau estynedig o absenoldeb megis absenoldeb mamolaeth, salwch tymor hir a seibiant astudio gael effaith ar allu unigolyn i gwblhau'r cymhwyster/achrediad perthnasol. Caiff hyn ei gydnabod yn yr adolygiadau cyfnod prawf a rhoddir cefnogaeth lawn er mwyn galluogi aelodau staff i gwblhau gofynion eu cyfnod prawf.

a) Darlithydd 1

Fel rheol, mae'n ofynnol bod staff a benodir ar raddfa darlithydd 1, nad ydynt yn meddu ar y cymhwyster PGCertHE neu gymhwyster cyfatebol ac sy'n meddu ar lai na thair blynedd o brofiad sylweddol o addysgu, yn cwblhau'r PGCertHE o fewn eu cyfnod prawf a chyn symud ymlaen i raddfa darlithydd 2.

Fel rheol, mae'n ofynnol bod staff a benodir ar raddfa darlithydd 1, sy'n meddu ar lai na thair blynedd o brofiad sylweddol o addysgu, yn cwblhau'r PGCertHE neu'n ennill cymrodoriaeth yr Awdurdod Addysg Uwch (AAU) o fewn eu cyfnod prawf a chyn symud ymlaen i raddfa darlithydd 2.

b) Darlithydd 2

Fel rheol, disgwylir bod staff ar radd darlithydd 2 wedi cwblhau'r PGCertHE neu'n meddu ar gymhwyster cyfwerth.

Fel rheol, disgwylir bod staff a benodir yn allanol nad ydynt yn meddu ar gymwysterau neu achrediad dysgu ond sy'n meddu ar fwy na thair blynedd o brofiad sylweddol o addysgu, yn cwblhau'r PGCertHE neu'n ennill cymrodoriaeth yr Awdurdod Addysg Uwch (AAU) o fewn eu cyfnod prawf.

c) Uwch Ddarlithydd -Erbyn mis Medi 2018, disgwylir y bydd aelodau staff sy'n gwneud cais am ddyrchafiad dan y llwybr dyrchafu perthnasol yn meddu ar gymwysterau addysgu perthnasol a/neu achrediad fel y nodir uchod dan adrannau a) a b) uchod. Yn ogystal, yn achos unigolion sy'n meddu ar gontractau addysgu ac ysgolheictod, fel rheol, disgwylir iddynt fod wedi gwneud cais am statws Uwch Gymrawd yr Academi Addysg Uwch ac wedi llwyddo yn eu cais cyn gwneud cais am ddyrchafiad.

Fel rheol, bydd yn ofynnol i aelodau staff a benodwyd yn allanol nad ydynt yn meddu ar gymhwyster/achrediad dysgu ffurfiol wneud cais, a llwyddo yn eu cais, am statws Cymrawd yr AAU (neu Uwch Gymrawd os penodwyd hwy i swydd addysgu ac ysgolheictod) o fewn 3 blynedd o'u penodiad.

d) Darllenydd neu Athro -Erbyn mis Medi 2018, fel rheol, disgwylir y bydd aelodau staff sy'n gwneud cais am ddyrchafiad yn meddu ar gymwysterau a/neu achrediad addysgu perthnasol fel y nodir uchod dan adran b) uchod. Yn ogystal, yn achos unigolion sy'n meddu ar gontractau addysgu ac ysgolheictod, disgwylir iddynt fod wedi gwneud cais am statws Prif Gymrawd ac wedi llwyddo yn eu cais cyn gwneud cais am ddyrchafiad.

Fel rheol, bydd yn ofynnol i aelodau staff a benodwyd yn allanol nad ydynt yn meddu ar gymhwyster/achrediad dysgu ffurfiol wneud cais, a llwyddo yn eu cais os yn bosib, am statws Cymrawd yr AAU (neu Brif Gymrawd os penodwyd hwy i swydd addysgu ac ysgolheictod) o fewn 3 blynedd o'u penodiad.

Rhaid nodi na fydd ennill unrhyw statws Cymrawd yr AAU yn arwain at ddyrchafiad awtomatig gan fod y meini prawf a'r disgwyliadau ar gyfer dyrchafiad yn llawer ehangach na chyflawni'r PGCertHE neu lefel achrediad AAU perthnasol.

5 Asesu Cymwysterau Addysgu a Dysgu ac Achrediad wrth Recriwtio

Os yw addysgu'n rhan o swydd ac os nad oes gan ymgeisydd PGCertHE neu Gymrodoriaeth yr AAU neu

gyfwerth *a'u bod* yn meddu ar brofiad addysgu sylweddol o fwy na thair blynedd, bydd rhaid penderfynu a ddylai'r ymgeisydd ymgymryd â'r PGCertHE neu wneud cais am statws Cymrawd AAU fel un o ofynion eu contract. Er mwyn dod i benderfyniad effeithiol ynglŷn â'r gofyniad cytundebol bydd rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus lenwi'r ffurflen ddiagnostig addysgu a dysgu yn Atodiad 2. Bydd hyn yn galluogi pennaeth yr ysgol i benderfynu ar ofyniad cytundebol yr unigolyn.

ATODIAD 1 - SIART LLIF POLISI ACHREDU ADDYSGU A DYSGU PRIFYSGOL BANGOR

A oes gan yr ymgeisydd fwy na 3 blynedd o brofiad addysgu sylweddol mewn addysg uwch?

NAC OES

- **Darlithydd 1** - fel rheol, rhaid ennill PGCertHE o fewn 3 blynedd
- **Darlithydd 2** - fel rheol, rhaid gwneud cais am statws Cymrawd AAU a gorau i gyd llwyddo yn y cais neu ennill PGCertHE o fewn 3 blynedd
- **Uwch ddarlithydd neu uwch** – fel y nodir yn y blwch isod.

OES

A oes gan yr ymgeisydd gymhwyster addysgu cydnabyddedig?

NAC OES

OES

Ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus mewn addysgu

- **Darlithydd 1** - fel rheol, rhaid ennill PGCertHE o fewn 3 blynedd
- **Darlithydd 2** - fel rheol, rhaid gwneud cais am statws Cymrawd AAU a gorau i gyd llwyddo yn y cais neu ennill PGCertHE o fewn 3 blynedd
- **Uwch ddarlithydd neu uwch**
 - Fel rheol, bydd staff gyda chontractau addysgu ac ymchwil wedi ennill statws Cymrawd yr AAU neu gyfwerth. Bydd fel rheol yn ofynnol i aelodau staff a benodwyd yn allanol nad ydynt yn meddu ar gymhwyster addysgu ffurfiol wneud cais, a gorau i gyd llwyddo yn eu cais, am statws Cymrawd yr AAU neu gyfwerth o fewn 3 blynedd.
 - Fel rheol, bydd staff gyda chontractau addysgu ac ymchwil wedi ennill y canlynol:
 - Uwch Gymrawd yr AAU i swydd Uwch Ddarlithydd
 - Prif Gymrawd yr AAU i wneud cais am ddyrchafiad i swydd Darllenydd/Athro

ATODIAD 2 - FFURFLEN DDIAGNOSTIG ADDYSGU A DYSGU

Yn ystod y broses gyfweld, nid oedd y panel yn gallu asesu a ddylech gyflawni PGCertHE neu Gymrawd yr AAU fel un o ofynion eich cyfnod prawf ac felly maent yn ceisio gwybodaeth ychwanegol am eich profiad addysgu er mwyn gwneud y penderfyniad hwnnw.

Rhowch dystiolaeth isod yn erbyn pob disgrifydd o'r gweithgaredd a'r datblygiad rydych wedi eu cyflawni:

	PGCertHE		Achrediad yr AAU	
	A	B	C	D
5 maes o weithgarwch proffesiynol				
1. Dyfeisio a chynllunio gweithgareddau dysgu a/neu raglenni astudiaeth.				
2. Addysgu ac/neu gefnogi dysgu				
3. Asesu a rhoi adborth i ddysgwyr				
4. Datblygu amgylcheddau dysgu effeithiol a dulliau effeithiol o gynorthwyo a chyfarwyddo myfyrwyr				
5. Cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus mewn pynciau/ disgyblaethau a'u haddysgeg, gan ymgorffori ymchwil ac ysgolheictod ac asesu arferion proffesiynol				
Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canlynol:				
Y deunydd pwnc (materion addysgeg yn y sector AU ac yn eich disgyblaeth eich hun)				
Dulliau priodol o addysgu a dysgu yn y maes pwnc ar lefel(au) y rhaglen academaidd				
Sut mae myfyrwyr yn dysgu, yn gyffredinol a hefyd yn eich maes pwnc/disgyblaeth				
Defnydd a gwerth technolegau dysgu priodol				
Dulliau o werthuso effeithiolrwydd yr addysgu				
Goblygiadau sicrhau ansawdd a gwella ansawdd ar ymarfer academaidd a phroffesiynol, gan ganolbwyntio'n benodol ar addysgu				
Gwerthoedd proffesiynol				
Parchu myfyrwyr unigol a chymunedau dysgu amrywiol				
Hyrwyddo cyfranogiad mewn addysg uwch a chyfle cyfartal i fyfyrwyr				
Defnyddio dulliau ar sail tystiolaeth a deilliannau ymchwil, ysgolheictod a datblygiad proffesiynol parhaus				
Cydnabod y cyd-destun ehangach y mae addysg uwch yn gweithredu ynddo, gan gydnabod y goblygiadau ar ymarfer proffesiynol				

Cyfarwyddyd i bennaeth yr ysgol:

Ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd, os yw mwyafrif yr atebion ym mlychau C a D, gyda rhai atebion ym mlychau B, mae'r unigolion yn meddu ar ddigon o wybodaeth a phrofiad i ymgymryd â'r llwybr achredu.

- Os yw mwyafrif yr atebion ym mlychau A a B ac yn arbennig os yw'r ymgeisydd yn nodi A fel pumed maes ei weithgarwch proffesiynol, dylent ymgymryd â'r PGCertHE.
- Os yw'r ymgeisydd wedi nodi atebion ym mlychau C a D yn bennaf gyda rhai atebion ym mlychau B ond wedi nodi A fel pumed maes ei weithgarwch proffesiynol, mae'n bosib y caiff ei ystyried am y llwybr achredu.

Eglurhad o'r colofnau:

A Nid yw'r ymgeisydd wedi ystyried hyn yn iawn ac nid yw'n meddu ar unrhyw brofiad uniongyrchol i adfyfrio arno.

B Mae'r ymgeisydd wedi meddwl am hyn ac mae'n meddu ar rywffaint o brofiad o hyn.

C Mae'r ymgeisydd wedi meddwl am hyn ac mae'n meddu ar rywffaint o dystiolaeth i gefnogi ei sylwadau yn y maes hwn.

D Mae'r ymgeisydd ym meddu ar brofiad sylweddol o hyn a gall ddangos dystiolaeth ohono yn ei ymarfer.